| | |
|---|---|
| CYFARFOD | PWYLLGOR PENSIYNAU |
| DYDDIAD | 5 GORFFENNAF 2010 |
| TEITL | MONITRO RHEOLWYR BUDDSODDI |
| AWDUR | DILWYN WILLIAMS<br>CYFARWYDDWR CORFFORAETHOL |

1 Yn ddiweddar cafodd y Panel Buddsoddi brofiad o fonitro Rheolwyr Buddsoddi lle gwelwyd hwy yn ail ddatgan eu sefyllfaoedd a nodwyd eisoes mewn cyfarfodydd blaenorol o ganlyniad i'r ffaith nad yw eu rhagolygon yn newid dros gyfnodau cymharol fyr .

2 O ganlyniad, cyfyd cwestiynau megis a ydym yn gwneud y defnydd mwyaf effeithiol o amser drwy gyfarfod rheolwyr buddsoddi mor aml ac a fyddai yr amser yn cael ei ddefnyddio yn well drwy gyfarfod rhai rheolwyr penodol yn llai aml ac yn defnyddio mwy o'r amser sydd ar gael i drafod materion perfformiad cyffredinol a dyraniad asedau.

3 Bu i ni ofyn am farn Hymans Robertson ar y mater ac yng nghyfarfod diwethaf y Panel Buddsoddi bu iddynt gyflwyno'r papur atodol.

4 Yn ystod y trafodaethau cychwynol, roedd yr aelodau o'r farn y dylid newid y drefn gyfredol o gyfarfodydd wyneb yn wyneb efo'r pedwar rheolwr buddsoddi gweithredol (Capital, Fidelity, Insight, UBS) gan weld dau mewn un chwarter a dau yn y chwarter nesaf, a gweld y rheolwr goddefol a'r rheolwr ecwiti preifat unwaith y flwyddyn.

5 Byddai perfformiad yr holl reolwyr yn cael ei drafod yn chwarterol, (pe byddem yn eu cyfarfod neu pheidio) a phe byddai rheolwr yn creu pryder i ni byddem yn mynnu eu gweld yn amlach.

6 Os yw'r Pwyllgor yn dymuno cymryd yr opsiwn a nodwyd uchod yna ni fyddai yr oll o'r Rheolwr Buddsoddi ar gael i'r Cyfarfod Blynyddol, ac os mai dyma fyddai'r sefyllfa, byddai'n rhaid i ni ymgynghori efo'r cyflogwyr ar y mater, ond ni welaf hyn fel maen tramgwydd.

7 Fe fydd y Pwyllgor yn dymuno ystyried y sefyllfa ymhellach a dod i gytundeb a'r weithrediad i'r dyfodol.